Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Comins Coch
# Comins Coch
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 3BQ

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/06/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Comins Coch ym mhentref Comins Coch, dwy filltir i'r gogledd-ddwyrain o Aberystwyth, yng Ngheredigion.  Mae tua thraean o'r disgyblion yn byw yn y pentref, gydag eraill yn dod o bentref Waunfawr a'r ardal gyfagos.  Mae 184 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 10 disgybl meithrin amser llawn.  Mae saith dosbarth yn yr ysgol, chwech ohonynt yn ddosbarthiadau oed cymysg.  Cânt eu haddysgu gan chwe athro amser llawn a dau athro rhan-amser.

Mae tua 6% o ddisgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.  Mae'r ysgol yn nodi bod gan oddeutu 22% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.  Nifer bach iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.  Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion o dras gwyn Prydeinig.  Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i oddeutu 11% o ddisgyblion.  Bach iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cael ei rheoli gan bennaeth dros dro a benodwyd yn Ionawr 2016, ar ôl i'r pennaeth fynd ar secondiad i'r awdurdod lleol.  Roedd yr arolygiad diwethaf yn Hydref 2011.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl unigol ar gyfer Ysgol Comins Coch yn 2016-2017 yw £3,123 fesul disgybl.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £8,440 a'r lleiafswm yw £3,123.  Mae Ysgol Comins Coch yn safle 47 o'r 47 ysgol gynradd yng Ngheredigion o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o gymharu â'u man cychwyn
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl yn dda; maent yn caffael gwybodaeth yn bwrpasol ac yn ei chymhwyso'n llwyddiannus i sefyllfaoedd newydd
- Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn cyflawni safonau da iawn mewn Cymraeg
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithio'n effeithiol iawn
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol wedi datblygu dealltwriaeth sicr o ba mor dda maent yn ei wneud a gwyddant beth i'w wneud i wella'u gwaith
- Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl yn llwyddiannus
- Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda neu'n well ac mae perthynas waith gadarnhaol iawn rhwng disgyblion ac oedolion ym mhob dosbarth
- Mae ansawdd da y gofal, cymorth ac arweiniad yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd:

- Mae arweinyddiaeth gref y pennaeth dros dro ynghyd â chymorth gwerthfawr yr uwch dîm rheoli yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygiad yr ysgol
- Mae gan yr holl aelodau staff ddisgwyliadau uchel iawn a gweledigaeth sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o'r ansawdd gorau oll i sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial
- Mae proses hunanarfarnu effeithiol sy'n galluogi'r ysgol i nodi, monitro ac arfarnu ei pherfformiad yn llwyddiannus
- Mae gan yr holl staff ddarlun clir a chywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd y mae angen eu gwella
- Mae gan yr ysgol hanes profedig o gynnal safonau uchel
- Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth o bartneriaid mewn ffordd sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac mae'n ymestyn profiadau dysgu yn llwyddiannus
- Mae'r dewis eang ac amrywiol o adnoddau'n cael ei reoli'n effeithiol

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb

A2 Cryfhau rôl strategol y corff llywodraethol yn y broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a amlygwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran a'u gallu. Mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd da iawn wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn eu gwersi, ac wrth drafod eu gwaith, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddysgu ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl yn dda; maent yn caffael gwybodaeth yn bwrpasol ac yn ei chymhwyso'n llwyddiannus i sefyllfaoedd newydd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn effeithiol ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa yn gymwys mewn amrywiol sefyllfaoedd. Maent yn gwrando'n dda ac yn sgwrsio â'u cymheiriaid ac oedolion yn hyderus iawn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando i safon uchel iawn. Siaradant mewn iaith goeth a defnyddiant amrywiaeth o eirfa yn fedrus iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus iawn yn eu gallu i siarad o flaen eu cymheiriaid ac maent yn cyfrannu'n dda at drafodaethau dosbarth, trwy fynegi eu barn yn glir ac yn aeddfed.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau ac maent yn dechrau ymestyn eu geirfa yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus ac yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder. Trafodant eu hoff storïau yn frwdfrydig a gallant ddisgrifio nodweddion llyfrau yn wybodus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion o safon uchel iawn. Darllenant yn ddeallus, gyda chywirdeb a mynegiant, a thrafodant hoff lyfrau ac awduron yn hyderus. Mae disgyblion mwy abl yn darllen ystod eang o lenyddiaeth, o'r clasuron i nofelau poblogaidd cyfoes. Datblygant eu medrau darllen uwch yn dda i gael gwybodaeth o amrywiaeth o destunau ac i ymchwilio i bynciau amrywiol yn fanwl, fel Oes Fictoria a'r Ail Ryfel Byd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau yn annibynnol. Maent yn atalnodi'n gywir a defnyddiant amrywiol ansoddeiriau a phriod-ddulliau i gyfoethogi eu gwaith yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu hyfedredd i ysgrifennu amrywiaeth o destunau ar draws y cwricwlwm yn bwrpasol ac i wahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft wrth ysgrifennu ffeil ffeithiau am ddraenogod ac erthygl ar Ddydd y Cofio. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron bob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda iawn. Maent yn amrywio brawddegau'n llwyddiannus ac yn trefnu'u gwaith yn daclus gan ddefnyddio paragraffau synhwyrol a medrus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol mewn amrywiaeth o ffurfiau ar draws y cwricwlwm. Maent yn gallu

addasu'u harddulliau ysgrifennu ar gyfer pynciau gwahanol yn gymwys, er enghraifft wrth ysgrifennu am dai Oes Fictoria ac Ymson Gwyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio cyffelybiaethau, priod-ddulliau ac ansoddeiriau'n dda i gyfoethogi eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn dewis ac yn defnyddio gweithrediadau rhif priodol i ddatrys problemau rhif yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio adalw rhifau hyd at 10 ar y cof i adio a thynnu rhifau mwy, haneru a dyblu rhifau a datrys amrywiaeth o broblemau yn gywir. Maent yn trefnu rhifau hyd at 100 ac yn adnabod dilyniannau mwyfwy cymhleth yn effeithiol. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio rhifau hyd at 200 yn hyderus. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth fesur uchder cennin Pedr. Defnyddiant eu medrau trafod data yn effeithiol iawn.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, cryfder amlwg yw gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatrys problemau mwyfwy cymhleth gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau mathemategol a medrau rhesymu. Mae'r medrau hyn yn datblygu'n gynyddol o'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn trosglwyddo'u medrau datrys problemau yn effeithiol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd, er enghraifft wrth gyfrifo'r daith rataf rhwng dau gwmni awyrennau, gan ystyried nifer o ffactorau fel trethi, costau bagiau, prydau bwyd a blaenoriaeth wrth fewngofnodi. Maent yn hyderus wrth wirio a yw eu canlyniadau'n gwneud synnwyr yng nghyd-destun y broblem. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gallu esbonio'u rhesymeg yn synhwyrol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u dealltwriaeth o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfan a degolion yn llwyddiannus. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn systematig ac yn esbonio'r strategaethau a ddefnyddiant yn glir iawn. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dehongli ac yn lluniadu graffiau llinell yn gywir, er enghraifft wrth edrych ar ddyfnder nant yn ystod blwyddyn neu wrth blotio uchder awyren yn ystod taith hedfan. Defnyddiant eu medrau trafod data yn dda iawn, er enghraifft wrth ddehongli siart cylch yn dangos canlyniadau arolwg o hoff siopau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion amrywiaeth o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), a ddefnyddiant yn llwyddiannus mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio rhaglenni data yn effeithiol i gasglu a chyflwyno gwybodaeth yn dda at wahanol ddibenion, er enghraifft wrth greu graff bloc am ddail yr hydref. Mae bron pob un o'r disgyblion yn rhaglennu tegan i'w anfon mewn gwahanol gyfeiriadau o gwmpas y goedwig i ddod o hyd i Dŷ Mam-gu yn stori'r Hugan Fach Goch. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio rhaglenni perthnasol i greu, trefnu, cadw a derbyn cynnwys digidol yn gymwys. Mae gan bron pob un o'r disgyblion fedrau prosesu geiriau da er mwyn ysgrifennu brawddegau amdanynt eu hunain a chynnwys hunanbortread. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r sganiwr 'QR' yn annibynnol ac yn llwyddiannus.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn dda i ategu eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Maent yn creu graffiau yn effeithiol ac yn defnyddio pecynnau'n dda i gyflwyno'u gwaith a chyfleu gwybodaeth at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Cyflwynant eu gwaith mewn fformatau diddorol gan ddefnyddio rhaglenni aml-gyfrwng yn fedrus. Mae'r rhan

fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r rhyngrwyd yn dda i chwilio am wybodaeth a gwirio dilysrwydd data. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth werthfawr o sut i ddefnyddio taenlenni i arddangos gwybodaeth ac archwilio patrymau a pherthnasoedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ychwanegu at gronfa ddata'r dosbarth, yn ei harchwilio ac yn ei dadansoddi'n gywir i ddilyn trywydd ymholi penodol, er enghraifft i ddarganfod pa hadau y mae'n rhaid eu plannu 30cm ar wahân ac y gellir cael eu cynaeafu ym mis Mawrth. Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn gadarn ar draws yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn cyflawni safonau rhagorol mewn Cymraeg. Maent yn mwynhau dysgu Cymraeg mewn amrywiaeth o bynciau ar draws y cwricwlwm. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau ac, erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn cynnal sgyrsiau syml yn hyderus gydag oedolion a'i gilydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu ystod eang o eirfa ac maent yn siarad yn hyderus yn y dosbarth a'r tu allan iddo. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae ynganiad a goslef llawer o ddisgyblion yn dda ar y cyfan.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen Cymraeg, mae ganddynt ddealltwriaeth resymol o'r hyn y maent wedi'i ddarllen ac maent yn dechrau dod yn ddarllenwyr annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen gyda hyder a chywirdeb cynyddol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen amrywiaeth eang o destunau fel cylchgrawn yr Urdd ac maent yn ymateb yn ystyrlon i'r testun. Maent yn defnyddio'u medrau darllen yn effeithiol i gael gwybodaeth a'i chyflwyno mewn ffordd ddiddorol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ysgrifennu'n ystyrlon ac yn annibynnol. Maent yn defnyddio geirfa addas a diddorol, ac yn dechrau amrywio brawddegau ac atalnodi yn gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer ohonynt yn dangos ymwybyddiaeth gref o wahanol ffurfiau ysgrifennu a defnyddiant y nodweddion hyn yn hyderus at nifer o ddibenion. Enghraifft dda yw'r gerdd a ysgrifennwyd am storm yn y dref leol ychydig flynyddoedd yn ôl.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd yn y deilliant disgwyliedig ac uwch wedi bod uwchlaw perfformiad ysgolion tebyg yn rheolaidd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol yn gyson uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 dros yr un cyfnod, nid oes gwahaniaeth amlwg ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac eraill yn y deilliannau disgwyliedig neu uwch.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch. Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes gwahaniaeth amlwg ar y lefel ddisgwyliedig rhwng bechgyn a merched. Ar y lefel uwch, mae merched yn tueddu i berfformio'n well na'r bechgyn mewn Saesneg a gwyddoniaeth, er nid oes gwahaniaeth amlwg mewn mathemateg.

## Lles: Digonol

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol, ac yn hapus i droi at unrhyw aelod staff os oes ganddynt bryderon. Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth sicr o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini, ac maent yn cymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol rheolaidd a gweithgareddau allgyrsiol, fel rygbi, pêl-droed ac athletau.

Mae safon ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob un o'r disgyblion yn uchel. Maent yn trin ei gilydd ac oedolion gyda pharch mawr. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithio'n effeithiol iawn. Dangosant fwynhad a balchder yn eu gwaith ac maent yn dyfalbarhau â'u tasgau am gyfnodau estynedig. Nodwedd gadarn yw dealltwriaeth ddatblygol disgyblion o ba mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd priodol i fynegi barn a lleisio'u pryderon. Mae aelodau'r cyngor ysgol, y cyngor eco a'r 'Criw Cymraeg' yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cymryd eu cyfrifoldeb o ddifrif. Rhoddant ystyriaeth briodol i sylwadau eu cyd-ddisgyblion ac maent yn falch o'u hymdrechion. Mae'r cyngor ysgol wedi ymgymryd â rôl weithgar yn datblygu polisi ymddygiad a gwrth-fwlio. Mae'n codi arian yn rheolaidd ar gyfer amrywiaeth o elusennau, fel y Banc Bwyd lleol, Plant mewn Angen a nyrsys Mcmillan. O ganlyniad, mae disgyblion yn deall bod yna bobl eraill sy'n llai ffodus na nhw. Mae'r cyngor eco yn codi ymwybyddiaeth yn weithgar o bwysigrwydd arbed ynni, ailgylchu gwastraff a hybu Masnach Deg. Mae'r 'Criw Cymraeg' yn frwdfrydig am y ffordd y mae'n gosod targedau i hybu datblygu'r Gymraeg yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan weithgar mewn gweithgareddau cymunedol ac yn ymfalchïo yn y cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau lleol. Enghraifft dda yw cyfraniad yr ysgol at ddiddanu'r henoed yn y ganolfan leol. Maent yn gwahodd aelodau'r gymuned yn flynyddol i 'De Cymreig' a chyngerdd. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu gwerthfawrogiad disgyblion o'r gymuned maent yn byw ynddi.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Fodd bynnag, nid yw cyfraddau presenoldeb dros y pedair blynedd diwethaf wedi cymharu'n dda â chyfraddau presenoldeb ysgolion tebyg ac maent wedi bod islaw'r canolrif yn rheolaidd.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb pob disgybl yn llwyddiannus. Mae athrawon yn cynllunio'n dda ac yn darparu cwricwlwm dychmygus sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion yn effeithiol ac sy'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr. Mae hon yn nodwedd amlwg ar draws yr ysgol. Mae amrywiaeth eang o ymweliadau addysgol ac ymwelwyr â'r ysgol, ynghyd â chlwb allgyrsiol poblogaidd iawn, yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn dda.

Mae athrawon yn rhoi llawer o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae cynllunio manwl yn creu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn yn dda mewn cyd-destunau perthnasol ac, o ganlyniad, mae'n sicrhau her bwrpasol iawn i ddisgyblion mwy abl. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u medrau meddwl yn dda trwy ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau datrys problemau. Mae'r holl staff yn cynllunio rhaglenni ymyrraeth llwyddiannus iawn i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ar draws yr ysgol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn rhagorol. Mae'r holl staff addysgu a chynorthwywyr addysgu yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae'r staff yn integreiddio'r iaith yn llwyddiannus iawn i amrywiaeth o weithgareddau dysgu o ansawdd da. Caiff disgyblion lawer o gyfleoedd diddorol i ddysgu am eu bro a hefyd am Gymru, ei hanes a'i diwylliant.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am ailgylchu, arbed ynni a lleihau gwastraff. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn frwdfrydig am bwysigrwydd ymddwyn yn gynaliadwy. Mae'r ysgol yn defnyddio rhieni yn effeithiol i siarad am ddiwylliannau eraill, sy'n cyfrannu'n dda iawn at wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda neu well ar draws yr ysgol. Mae gan yr holl athrawon wybodaeth bynciol dda. Maent yn rheoli eu dosbarthiadau'n effeithiol ac mae gwersi yn drefnus iawn. Mae pob un ohonynt yn disgwyl i ddisgyblion gyflawni'n dda a rhoddant lefel uchel, briodol o her yn y gwaith a osodant. Mae hyn yn ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae cyflymder gwersi yn nodwedd gadarn ac mae athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau ac ymagweddau i adeiladu ar yr hyn y mae disgyblion yn ei wybod a'i wneud. Ar draws yr ysgol, gwneir defnydd effeithiol o holi er mwyn ymestyn medrau meddwl disgyblion ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gweithio'n hynod o dda gyda'i gilydd. Maent yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion yn Gymraeg a Saesneg, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau siarad a gwrando. Mae'r holl oedolion yn defnyddio'r Gymraeg yn helaeth, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, mewn ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at y safonau uchel iawn a gyflawnir.

Mae gan gynorthwywyr addysgu wybodaeth bynciol dda iawn a medrau addysgu da iawn, a defnyddiant y rhain i gyfrannu'n gryf at y safonau uchel sy'n cael eu cyflawni gan ddisgyblion ym mhob dosbarth.

Mae'r holl athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn bwrpasol. Mae eu dull cyson o farcio yn rhoi adborth rheolaidd a defnyddiol i ddisgyblion ar yr hyn y maent wedi'i wneud yn dda ac maent yn aml yn gosod her ychwanegol ar yr hyn y gall y disgybl ei wneud i wella. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. O ganlyniad, mae gallu disgyblion i arfarnu pa mor dda maent yn ei wneud yn nodwedd gref ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn asesu'n drylwyr ac yn dadansoddi deilliannau disgyblion yn drwyadl i nodi targedau ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion a chynllunio cymorth ac ymyrraeth briodol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gynnydd eu plentyn. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn fanwl ac addysgiadol ac yn gosod targedau clir ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd da y gofal, cymorth ac arweiniad yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft y siop ffrwythau, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut i fod yn ddiogel. Caiff y rhain eu hategu'n dda gan weithgareddau fel tyfu llysiau yng ngardd yr ysgol i'w bwyta yn yr ysgol. Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i wneud ymarfer corff yn ystod amser egwyl, gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau ar ôl ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus trwy ddarparu addoli ar y cyd yn rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm, fel addysg gorfforol a'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel ac mae'n golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Caiff hyn ei ddangos yn glir yn y ffordd ofalgar mae'r disgyblion yn eu trin ei gilydd.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol ag amrywiaeth o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol. Er enghraifft, mae sesiwn ddiweddar gan swyddog cyswllt lleol yr heddlu wedi cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o fwlio seiber a diogelwch ar-lein.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn. Mae staff yr ysgol yn amlygu unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn gyflym, yn rhoi cymorth yn briodol ac yn monitro cynnydd disgyblion yn rheolaidd ac yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn fanwl a thrylwyr, a'u bod yn cynnwys barn rhieni pan gânt eu hadolygu. Mae system olrhain yr ysgol yn dangos bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da gydag amser.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol amgylchedd croesawgar a hapus tu hwnt. Mae'n gymuned gynhwysol, lle y mae holl feysydd darpariaeth yr ysgol ar gael yn gyfartal i bob disgybl. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae adnoddau o ansawdd da ym mhob ardal, sy'n ategu dysgu ac addysgu yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys detholiad helaeth o lyfrau ac adnoddau TGCh.

Mae athrawon yn gwneud defnydd arbennig o dda o adnoddau dwyieithog i ategu dysgu ac addysgu Cymraeg.

Mae’r amgylchedd dysgu o ansawdd da. Er bod y gofod presennol braidd yn gyfyng mewn rhai dosbarthiadau, gwneir defnydd llawn o’r holl ofod tu mewn a’r tu allan i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Mae’r ardaloedd dysgu awyr agored ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi’u datblygu’n dda ac mae staff yn gwneud defnydd llawn o’r rhain i ategu datblygiad medrau llythrennedd, creadigol a datrys problemau.

Mae arddangosfeydd deniadol o waith a chyflawniadau disgyblion mewn ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu ysgogol a diddorol, gan ategu dysgu’r disgyblion yn effeithiol.

Mae safonau glendid yn uchel ac mae adeilad a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a chadw’n briodol.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth gref y pennaeth dros dro, ynghyd â chymorth gwerthfawr yr uwch dîm rheoli, yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygiad yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn a gweledigaeth sy’n seiliedig ar ddarparu addysg o’r safon uchaf i sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial. Maent yn cyfleu’r weledigaeth i staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn llwyddiannus iawn.

Nodwedd arbennig o dda yw neilltuo cyfrifoldebau’r staff yn hynod effeithiol. Mae’n rhan o strategaeth yr ysgol i ddatblygu staff, hybu cydweithredu a rhannu arfer dda o fewn yr ysgol a’r tu hwnt. O ganlyniad, mae pawb yn rhannu cyfrifoldeb am gyfeiriad strategol yr ysgol ac yn defnyddio’u cryfder unigol a’u cymwysterau er mwyn sicrhau’r effaith fwyaf. Mae gweithdrefnau cyfathrebu clir rhwng yr holl staff. Maent yn cydweithredu’n hynod effeithiol fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro ac arfarnu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau’r ysgol.

Mae datblygiad proffesiynol yr holl staff yn nodwedd arbennig o gadarn a chaiff ei hybu’n llwyddiannus iawn trwy weithdrefnau rheoli perfformiad a threfniadau mentora rhagorol, sy’n cael effaith arwyddocaol ar addysgu, dysgu a pha mor dda mae disgyblion yn cyflawni.

Mae’r ysgol yn cael cymorth da gan lywodraethwyr. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o gryfderau’r ysgol a’r meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach. Mae system drylwyr yr ysgol ar gyfer monitro data yn sicrhau eu bod yn wybodus am berfformiad yr ysgol dros gyfnod o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion eraill. Mae ymweliadau â dosbarthiadau yn galluogi llywodraethwyr i gyrraedd barn fwy pendant am safonau gwaith a chyrhaeddiad disgyblion ac i herio a chwestiynu arweinwyr am berfformiad yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw rôl strategol y corff llywodraethol yn y broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella wedi datblygu’n llawn.

Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a gwella medrau TGCh yn barod ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth dros dro, yr uwch dîm rheoli a'r staff wedi sefydlu diwylliant o hunanarfarnu agored a gonest sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n broses effeithiol sy'n galluogi'r ysgol i nodi, monitro ac arfarnu ei pherfformiad yn llwyddiannus. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gryno ac arfarnol, ac mae'n rhoi darlun cywir o'r ysgol.

Mae systemau trylwyr ar gyfer adolygu cynnydd, nodi meysydd i'w gwella a chymryd camau effeithiol i weithredu arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad gofalus o ddata perfformiad cymharol yr ysgol ac asesiadau athrawon, yn ogystal â chraffu ar lyfrau ac arsylwadau gwersi rheolaidd. Mae athrawon a staff cymorth oll yn chwarae rhan weithgar yn y broses o fonitro, arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae athrawon yn eu harsylwi ei gilydd yn addysgu yn rheolaidd ac yn trafod y rhinweddau a'r meysydd y gellid eu gwella.

Mae'r ysgol yn manteisio'n llwyddiannus ar farn disgyblion a rhieni. Mae'r grwpiau gweithredu disgyblion niferus yn allweddol wrth ysgogi nifer o welliannau, fel datblygu tir yr ysgol a hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu drwy'r broses hunanarfarnu yn effeithiol iawn i osod blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n addas i anghenion yr ysgol, ac sy'n rhoi ffocws cryf ar ddeilliannau disgyblion. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi targedau perthnasol a phenodol a meini prawf llwyddiant mesuradwy. Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion ariannol a dulliau o fonitro cynnydd. Mae capasiti a gallu arweinwyr a rheolwyr i wneud gwelliannau a rhoi cynlluniau ar waith yn eithriadol o dda. Mae gan yr ysgol hanes profedig o gynnal safonau uchel.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag amrywiaeth o bartneriaid mewn ffordd sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac sy'n ehangu profiadau dysgu yn dda. Mae arweinwyr a staff yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni gan ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol, post electronig ac amrywiaeth o lyfrynnau gwybodaeth. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn gwneud cyfraniadau ariannol gwerthfawr i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion, er enghraifft trwy ariannu gwelliannau i'r ardaloedd awyr agored.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r arbenigedd sy'n bodoli yn y gymuned leol. Er enghraifft, mae sesiynau 'blasu' daearyddiaeth, gwyddoniaeth a TGCh trefnus gyda'r brifysgol leol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddiddordebau disgyblion yn y pynciau. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da iawn ag ysgol yn Iwerddon ac mae disgyblion wedi cael cyfle i ymweld â hi, cymryd rhan mewn gwersi a dysgu am draddodiadau a ffordd o fyw gwlad arall.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd gwerth chweil o wirfoddolwyr sy'n cefnogi disgyblion, er enghraifft mewn Cymraeg. Maent yn cyfrannu'n dda at ddatblygu hunanhyder disgyblion a'u diddordeb yn y pwnc. Mae'r heddlu a gweithwyr iechyd proffesiynol yn cefnogi rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn llwyddiannus yn enwedig mewn perthynas â diogelwch a hylendid personol.

Sefydlwyd system effeithiol o safoni gydag ysgolion eraill i lunio proffiliau pwrpasol a defnyddiol i helpu athrawon wrth iddynt safoni gwaith disgyblion. Mae trefniadau pontio effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n symud i'r ysgol o ddau gylch chwarae lleol, sy'n eu helpu i ymgynefino'n gyflym â'u lleoliad newydd. Mae cysylltiadau buddiol â'r ysgol uwchradd leol, sy'n helpu disgyblion i drosglwyddo'n hwylus rhwng un sector ac un arall ac wrth baratoi disgyblion ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol dîm ymroddedig o staff cymwysedig a phrofiadol sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn at ddysgu a lles disgyblion. Mae cynorthwywyr addysgu yn rhan bwysig o'r tîm ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol, yn enwedig wrth gefnogi llythrennedd a rhifedd.

Mae datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff yn cysylltu'n glir â'r athroniaeth sy'n gyrru gweledigaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu lwyddiannus ac mae staff yn rhannu arfer dda yn rheolaidd gydag ysgolion eraill, er enghraifft o ran datblygiad y Gymraeg.

Mae trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

Mae'r ystod eang ac amrywiol o adnoddau yn cael ei rheoli'n effeithiol ac mae disgyblion yn elwa'n fawr o gyfleoedd i'w defnyddio.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithlon. Mae'r gyllideb ar gyfer gweithredu blaenoriaethau gwella'r ysgol wedi'i neilltuo'n glir a chaiff ei defnyddio'n llwyddiannus i ymateb i anghenion penodol. Mae hyn yn sicrhau bod cyflenwad eang o adnoddau sy'n ymateb i anghenion disgyblion. Er bod gan yr ysgol gronfeydd uwchlaw'r lefel argymelledig ar hyn o bryd, mae gan y corff llywodraethol gynlluniau addas ar gyfer eu defnydd i ategu darpariaeth yr ysgol.

Mae'r trefniadau presennol ar gyfer neilltuo'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn canolbwyntio'n dda iawn ar amrywiaeth eang o raglenni ymyrraeth i roi cymorth buddiol â darllen a mathemateg i ddisgyblion agored i niwed. O ganlyniad, mae bron pob disgybl targedig yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o leiaf.

O ystyried safonau cyflawniad uchel disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672303 - YSGOL GYMUNEDOL COMINS COCH**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 176 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.9 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 19 | 30 | 18 | 19 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 94.7 | 86.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 30 | 18 | 19 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.7 | 86.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 36.8 | 20.0 | 55.6 | 63.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 30 | 18 | 19 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.7 | 90.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 26.3 | 30.0 | 50.0 | 63.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 30 | 18 | 19 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.7 | 86.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 36.8 | 36.7 | 77.8 | 78.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672303 - YSGOL GYMUNEDOL COMINS COCH**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 176 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.9 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 19 | 26 | 25 | 22 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 94.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 26 | 25 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 94.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 57.9 | 57.7 | 88.0 | 54.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 26 | 25 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 94.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 68.4 | 53.8 | 76.0 | 59.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 26 | 25 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 94.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 68.4 | 65.4 | 80.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 87 | 87<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 87 | 77<br>89% | 10<br>11% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 87 | 84<br>97% | 3<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 87 | 83<br>95% | 4<br>5% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 87 | 85<br>98% | 2<br>2% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 87 | 87<br>100% | 0<br>0% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 87 | 87<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 87 | 83<br>95% | 4<br>5% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 87 | 82<br>94% | 5<br>6% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 87 | 85<br>98% | 2<br>2% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 86 | 65<br>76% | 21<br>24% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 87 | 71<br>82% | 16<br>18% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymatebion i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 76 | 52 | 22 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 68% | 29% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 75 | 63 | 10 | 1 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 84% | 13% | 1% | 1% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 76 | 59 | 15 | 2 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 78% | 20% | 3% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 76 | 52 | 23 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 68% | 30% | 1% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 76 | 43 | 31 | 0 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 57% | 41% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 76 | 50 | 25 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 66% | 33% | 1% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 76 | 52 | 24 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 76 | 32 | 37 | 2 | 0 | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 42% | 49% | 3% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 76 | 52 | 18 | 1 | 2 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 68% | 24% | 1% | 3% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 76 | 42 | 30 | 1 | 1 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 55% | 39% | 1% | 1% | | |
| | | 59% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 76 | 60 | 16 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 75 | 37 | 23 | 1 | 2 | 12 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 49% | 31% | 1% | 3% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 76 | 34<br>45% | 35<br>46% | 7<br>9% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 76 | 50<br>66% | 22<br>29% | 2<br>3% | 1<br>1% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 76 | 33<br>43% | 35<br>46% | 1<br>1% | 1<br>1% | 6 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 76 | 51<br>67% | 23<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 76 | 32<br>42% | 25<br>33% | 1<br>1% | 0<br>0% | 18 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 76 | 30<br>39% | 36<br>47% | 7<br>9% | 2<br>3% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 76 | 51<br>67% | 24<br>32% | 0<br>0% | 1<br>1% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Mervyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Mr David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Mr Michael Hayes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Bethan Davies (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.